LACA
the school food people




# AWARDS

# WALES REGION 2023

CYDNABYDDIAETH o RHAGORIAETH

RECOGNITION OF EXCELLENCE

26th October at Vale of Glamorgan Hotel



## GWOBR CADEIRYDD LACA RHANBARTH CYMRU

Wedi'i noddi gan Radnor Hills

Bydd Cadeirydd Rhanbarthol Cymru yn cyflwyno Gwobr Cadeirydd LACA Rhanbarth Cymru i unigolyn arbennig neu grŵp o bobl.

Mae'r wobr yn rhodd gan Bwyllgor Rhanbarthol LACA Cymru, sy'n cael y cyfle i gydnabod cyfraniadau tra gwahanol i arlwyo addysg yng Nghymru.

Nid oes unrhyw enwebeion ar gyfer y wobr hon a bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi ar y noson.

## LACA WALES REGION CHAIR'S AWARD

Sponsored by Radnor Hills

The Wales Regional Chair will present a special individual or group of people with the prestigious LACA Wales Region Chair's Award.

The award is the gift of the LACA Wales Regional Committee, who have the opportunity to acknowledge what can be very different contributions to education catering in Wales.


There are no nominees for this award, and the winner will be announced on the evening.

LACA the school food people

SPONSORED BY: RADNOR







## GWOBR ARLOESI LACA RHANBARTH CYMRU

Wedi'i noddi gan Hobart

Bydd y wobr hon yn cydnabod unigolyn neu dîm sydd wedi datblygu gwasanaeth, cynnyrch neu broses arloesol o fewn arlwyo addysg.

**Rhaid i gyflwyniadau ddangos**

- i ba raddau mae'r syniad wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac wedi ychwanegu gwerth i'r farchnad prydau ysgol
- cynaliadwyedd y syniad wrth symud ymlaen
- dangos sut caiff y syniad ei gynnal gan werthoedd corfforaethol.

Gallai meysydd arloesi gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, hyfforddiant, marchnata, cynaliadwyedd, cynyddu'r nifer sy'n cael prydau bwyd, gweithio mewn partneriaeth, cynhyrchu incwm, cynllunio cydnerthedd, parhad busnes, cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd

**Gofynion Cyflwyno**

- Hyd at uchafswm o 1000 o eiriau (rhaid dangos nifer y geiriau)
- Cyflwyno pob cofnod yn electronig ac ar ffurf PDF
- Dim mwy na chyfanswm o 12 llun yn y cyflwyniad
- Gwybodaeth ategol i beidio â bod yn fwy na 2 daflen A4 un ochr
- Trosolwg 50 gair o'r cais

Dylid e-bostio ceisiadau i Paul Williams, Ysgrifennydd LACA Rhanbarth Cymru – pwilliams@greengourmet.co.uk erbyn dydd Gwener 1 Medi 2023

## LACA WALES REGION INNOVATION AWARD

Sponsored by Hobart

This award will recognise an individual or team who has developed an innovative service, product, or process within education catering.

**Submissions must demonstrate the extent to which the idea**

- has made a real difference and added value to the school meals market
- the sustainability of the idea going forward
- evidence how the idea is supported by corporate values.

Areas of innovation could include but are not limited to; training, marketing, sustainability, improved meal uptake, partnership working, income generation, resilience planning, business continuity, UPFSM rollout


**Submission Requirements**

- Up to a maximum of 1000 words (word count must be shown)
- All entries to be submitted electronically and in PDF format
- No more than 12 pictures in the total submission
- Support information not to exceed 2 x A4 single sided sheets
- 50 word overview of entry

Entries must be emailed to Paul Williams, LACA Wales Regional Secretary – pwilliams@greengourmet.co.uk by Friday 01 September 2023

SPONSORED BY: HOBART

# LACA AWARDS 2023



## TÎM ARLWYO YSGOLION Y FLWYDDYN LACA CYMRU

Wedi'i noddi gan Harlech Foodservice

Nod y wobr hon yw rhoi cydnabyddiaeth i dîm arlwyo mewn ysgol gynradd neu uwchradd sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol at godi proffil eu gwasanaeth arlwyo unigol o fewn yr ysgol a/neu'r gymuned leol.

**Bydd y tîm buddugol wedi dangos**

- gwasanaeth dyddiol sydd wedi'i wella a'i newid
- tystiolaeth o effaith gadarnhaol y newidiadau
- ymrwymiad ac ymdrech i ddyfeisio a/neu weithredu gweithgareddau sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaeth bwyd yr ysgol ac sy'n ei gynorthwyo, wrth gynnal Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

Bydd lefel gyson o safonau proffesiynol mewn gwaith o ddydd i ddydd yn cael ei hystyried cymaint â gwreiddioldeb a chreadigedd.

Dylai ymgeiswyr geisio amlygu'r nodau y tu ôl i unrhyw syniadau, wedi'u hamlinellu trwy ddefnyddio enghreifftiau a darluniau gweledol o sut cafodd y cynlluniau eu rhoi ar waith, a darparu tystiolaeth o'r cyflawniadau neu'r canlyniadau.

Dylid cynnwys partneriaethau gyda rhanddeiliaid ac unrhyw ddyfarniadau neu achrediadau perthnasol eraill yn y cyflwyniad.

Mae'r wobr amlwg hon yn glod sylweddol i dîm arlwyo ysgol sydd wedi gwthio ffiniau hyrwyddo gyda'u perfformiad ac wedi cael effaith fawr ar agweddau cwsmeriaid neu'r nifer sy'n manteisio ar wasanaeth bwyd ei ysgol.

**Gofynion Cyflwyno**

- Hyd at uchafswm o 1000 o eiriau (rhaid dangos nifer y geiriau)
- Cyflwyno pob cofnod yn electronig ac ar ffurf PDF
- Llythyr cefnogaeth gan bennaeth
- Dim mwy na chyfanswm o 12 llun yn y cyflwyniad
- Gwybodaeth ategol i beidio â bod yn fwy na 2 daflen A4 un ochr
- Trosolwg 50 gair o'r cais

Dylid e-bostio ceisiadau i Paul Williams, Ysgrifennydd LACA Rhanbarth Cymru – pwilliams@greengourmet.co.uk erbyn dydd Gwener 1 Medi 2023

## LACA WALES SCHOOL CATERING TEAM OF THE YEAR

Sponsored by Harlech Foodservice

This award aims to give recognition to a primary or secondary school based catering team which has made an outstanding contribution to raising the profile of their individual school catering service within the school and/or its local community.

**The winning school team will have demonstrated**

- improved and changed daily service
- evidence of the positive impact of the changes
- commitment and effort in devising and/or implementing activities which increase awareness of and support the school's food service, whilst maintaining Healthy Eating in Schools Regulations.

A consistent level of professional standards in day to day work will be taken into account as much as originality and creativity.

Candidates should seek to highlight the aims behind any ideas, outlined through the use of examples and visual illustrations of how the plans were put into action and provide evidence of the achievements or results. Partnerships with stakeholders, and any other relevant awards or accreditations should be included in the submission.

This high profile award represents a significant accolade for a school catering team whose performance has pushed the promotional boundaries and made a major impact on customer attitudes or uptake of its school's food service.

**Submission Requirements**


- Up to a maximum of 1000 words (word count must be shown)
- All entries to be submitted electronically and in PDF format
- Letter of support from Headteacher
- No more than 12 pictures in the total submission
- Support information not to exceed 2 x A4 single sided sheets
- 50 word overview of entry

Entries must be emailed to Paul Williams, LACA Wales Regional Secretary – pwilliams@greengourmet.co.uk by Friday 01 September 2023

SPONSORED BY: HARLECH FOODSERVICE



LACA AWARDS 2023



## CYFLENWR EITHRIADOL Y FLWYDDYN LACA RHANBARTH CYMRU

Wedi'i noddi gan LACA Rhanbarth Cymru

Mae'r wobr hon i gydnabod partner neu aelod cyswllt LACA sydd wedi cynnal y lefel uchaf o gymorth a rhagoriaeth gwasanaeth yn gyson i sector Arlwyo Addysg Cymru.

Bydd y cyflenwr buddugol nid yn unig wedi dangos gwerthfawrogiad sylfaenol o ofynion arlwyo awdurdodau lleol yng Nghymru, ond hefyd wedi dangos ymrwymiad eithriadol, rhywfaint o deyrngarwch, cyfranogiad gweithredol a chyfraniad aruthrol i ddatblygiad a thwf arlwyo mewn ysgolion yn y dyfodol.

Gall gweithgareddau aelod allweddol o'r sefydliad gael eu hystyried yn feini prawf addas ar gyfer y wobr hon, drwy gymorth unigol i arlwyo awdurdodau lleol sydd y tu hwnt i rôl y swydd.

Gall y cyflenwr buddugol fod yn rym deinamig yn y gweithle sy'n delio â heriau yn rheolaidd gydag atebion cadarnhaol ac ymarferol. Nodweddion buddugol eraill i'w hystyried fyddai gweithlu gwerthu cyfeillgar a chymwynasgar, gwasanaeth i gwsmeriaid, cynaliadwyedd, a systemau gwerthu a dosbarthu busnes effeithlon.

Ar gyfer y wobr hon, mae gofyn i ddarparwyr prydau ysgol enwebu cwmni cyflenwi/cynhyrchu, neu un o'i adrannau, is-adrannau neu weithwyr unigol. Yn y categori hwn, mae modd i gyflenwyr a chynhyrchwyr hefyd gynnig eu cwmni eu hunain, adran, neu unigolyn i'w hystyried.

**Gofynion Cyflwyno**

- Hyd at uchafswm o 1000 o eiriau (rhaid dangos nifer y geiriau)
- Cyflwyno pob cofnod yn electronig ac ar ffurf PDF
- Dim mwy na chyfanswm o 12 llun yn y cyflwyniad
- Deunydd ategol i beidio â bod yn fwy na 2 daflen A4 un ochr
- Trosolwg 50 gair o'r cais

Dylid e-bostio ceisiadau i Judith Gregory, Cadeirydd LACA Cymru – jgregory@caerdydd.gov.uk erbyn dydd Gwener 1 Medi 2023

## LACA WALES REGION OUTSTANDING SUPPLIER OF THE YEAR

Sponsored by LACA Wales Region

This award is in recognition of a LACA Partner or Associate Member who has consistently maintained the highest level of support and service excellence to the Welsh Education Catering sector.

The winning supplier will not only have demonstrated a fundamental appreciation of the requirements of local authority catering in Wales, but has also shown an exceptional commitment, degree of loyalty, active involvement and an immeasurable contribution to the future development and growth of education catering. The activities of a key member of the organisation may be equally considered suitable criteria for this award, through individual support to local authority catering above and beyond the job role.

The winning supplier may be a dynamic force in the workplace that regularly handles challenges with positive and workable solutions. Other winning attributes to be considered would be a friendly, helpful sales force, customer service, sustainability and efficient business sales and distribution systems.

This award is open for school meal providers to nominate a supplier/manufacturer company or one of its departments, divisions, or individual employees. The category is also open to suppliers and manufacturers themselves to put forward their own company, a department, or an individual for consideration.


**Submission Requirements**

- Up to a maximum of 1000 words (word count to be shown)
- All entries to be submitted electronically and in PDF format
- No more than 12 pictures in the total submission
- Support material not to exceed 2 x A4 single sided sheets
- 50 word overview of entry

Entries must be emailed to Judith Gregory, LACA Wales Chair – jgregory@cardiff.gov.uk by Friday 01 September 2023

SPONSORED BY: LACA the school food people

# LACA AWARDS 2023



## GWOBR TALENT SY'N DOD I'R AMLWG LACA RHANBARTH CYMRU

Wedi'i noddi gan Falcon

**Bydd y wobr hon yn cydnabod**

- unigolyn neu dîm sy'n dangos i ba raddau mae eu talent wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w gwasanaeth, cydweithwyr neu gwsmeriaid.
- cynaliadwyedd syniadau a thystiolaeth o ran sut mae eu datblygiad wedi cynorthwyo gwerthoedd corfforaethol

Gallai meysydd talent gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newid cyfeiriad swydd, eich datblygiad personol a hyfforddi eich hun, marchnata'r gwasanaeth, cynllunio olyniaeth ar gyfer y dyfodol, cynyddu'r nifer sy'n cael prydau bwyd, gweithio mewn partneriaeth ag eraill, cyfleoedd cynhyrchu incwm.

Bydd canlyniadau neu ddeilliannau cyfraniad yr unigolyn hwn wedi dangos gwerth ychwanegol, mentergarwch newydd neu sefyllfa unigryw sydd wedi bod o fudd i'r gwasanaeth arlwyo ysgolion mewn rhyw ffordd.

**Gofynion Cyflwyno**

- Hyd at uchafswm o 1000 o eiriau (rhaid dangos nifer y geiriau)
- Cyflwyno pob cofnod yn electronig ac ar ffurf PDF
- Dim mwy na chyfanswm o 12 llun yn y cyflwyniad
- Gwybodaeth ategol i beidio â bod yn fwy na 2 daflen A4 un ochr
- Trosolwg 50 gair o'r cais

Dylid e-bostio ceisiadau i Paul Williams, Ysgrifennydd LACA Rhanbarth Cymru – pwilliams@greengourmet.co.uk erbyn dydd Gwener 1 Medi 2023

## LACA WALES REGION EMERGING TALENT AWARD

Sponsored by Falcon

**This award will recognise an individual or team that:**

- demonstrates the extent to which their talent has made a real difference to their service, colleagues or customers.
- shows the sustainability of ideas and evidence in how their development has supported corporate values

Areas of talent could include but are not limited to; change in job direction, own personal development, and training, marketing the service, succession planning for the future, improved meal uptake, partnership working with others, income generation opportunities.

The consequences or outcomes of this individual's contribution will have demonstrated added value, new initiatives or a unique situation that benefited the school catering service in some way.

**Submission Requirements**

- Up to a maximum of 1000 words (word count must be shown)
- All entries to be submitted electronically and in PDF format
- No more than 12 pictures in the total submission
- Support information not to exceed 2 x A4 single sided sheets
- 50 word overview of entry


Entries must be emailed to Paul Williams, LACA Wales Regional Secretary – pwilliams@greengourmet.co.uk by Friday 01 September 2023

LACA the school food people

SPONSORED BY: Falcon



# LACA AWARDS 2023



## GWOBR SEREN DDISGLAIR LACA RHANBARTH CYMRU

Wedi'i noddi gan Middleton Foods

Nod y wobr hon yw cydnabod yr unigolion neu dîm sy'n rhagorol yn yr hyn maen nhw'n ei wneud, ac sy'n disgleirio'n gyson trwy eu gwasanaeth yn y sector prydau ysgol.

Mae'r Wobr Seren Ddisglair yn berthnasol i bob gweithiwr amser llawn, gweithiwr rhan-amser a gweithiwr rhannu swydd. Bydd gweithwyr sy'n gymwys wedi colli isafswm amser o'r gwaith oherwydd salwch neu absenoldeb a gallant ddangos eu teyrngarwch, eu hymroddiad, a'u harweinyddiaeth wrth arwain y ffordd mewn rhagoriaeth nid yn unig i'r gwasanaeth, ond o fewn eu cymuned leol. Dylid cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r blynyddoedd o wasanaeth, cyfnodau o absenoldeb o fewn y cyfnod hwnnw a gwybodaeth benodol yn ymwneud â sut mae'r unigolyn wedi dangos ei deyrngarwch, ei ymroddiad a'i arweinyddiaeth yn y cyflwyniad.

**Gofynion Cyflwyno**

- Hyd at uchafswm o 1000 o eiriau (rhaid dangos nifer y geiriau)
- Cyflwyno pob cofnod yn electronig ac ar ffurf PDF
- Dim mwy na chyfanswm o 12 llun yn y cyflwyniad
- Gwybodaeth ategol i beidio â bod yn fwy na 2 daflen A4 un ochr
- Trosolwg 50 gair o'r cais

Dylid e-bostio ceisiadau i Paul Williams, Ysgrifennydd LACA Rhanbarth Cymru – pwilliams@greengourmet.co.uk erbyn dydd Gwener 1 Medi 2023

## LACA WALES REGION SHINING STAR AWARD

Sponsored by Middleton Foods

This award aims to recognise those individuals or team who are simply outstanding at what they do, and continuously shine through their service within the school meals sector.

The Shining Star Award applies to all full-time, part-time and job share employees. Employees who are eligible will have lost minimum time from work for sickness or leave of absence and can demonstrate their loyalty, dedication, leadership whilst leading the way in excellence not only to the service but within their local community.

Information relating to the years' service, periods of absence in that time and specific information relating to how the individual has demonstrated their loyalty, dedication and leadership should be included in the submission.


**Submission Requirements**

- Up to a maximum of 1000 words (word count must be shown)
- All entries to be submitted electronically and in PDF format
- No more than 12 pictures in the total submission
- Support information not to exceed 2 x A4 single sided sheet
- 50 word overview of entry

Entries must be emailed to Paul Williams, LACA Wales Regional Secretary – pwilliams@greengourmet.co.uk by Friday 01 September 2023

SPONSORED BY: middleton foods

# LACA AWARDS 2023



## TÎM RHEOLI ARLWYO Y FLWYDDYN LACA RHANBARTH CYMRU

Wedi'i noddi gan Castell Howell

Bydd y sefydliad buddugol wedi dangos lefel uchel o sgiliau rheoli, mentergarwch, ac ymrwymiad wrth ddyfeisio a gweithredu menter neu strategaeth fusnes, sydd wedi arwain at newid neu welliant cadarnhaol yn eu gwasanaeth bwyd ar draws eu maes gweithredu.

Bydd y tîm buddugol wedi dangos agwedd egnïol a llawn dychymyg at ei waith yn ogystal â dangos cyfranogiad gweithredol staff wrth ddatblygu a chyflwyno newid yn llwyddiannus.
Gall hyn gynnwys cyflwyno cynlluniau addysg a hyfforddiant a gwell ymgysylltiad â staff, datblygu cysyniadau newydd a chymorth â gwerth ychwanegol, cyflawni gwelliannau mewn iechyd a lles, cwblhau rhaglenni moderneiddio, strategaethau twf neu newid sylweddol neu gyfuniad o unrhyw un o'r rhain.

Mae modd cynnwys tystiolaeth o bartneriaethau cymunedol a sut y gwnaethon nhw gydweithio ag unrhyw ddyfarniadau neu achrediadau perthnasol eraill a gafwyd yn y cyflwyniad.

**Gofynion Cyflwyno**
- Hyd at uchafswm o 1000 o eiriau (rhaid dangos nifer y geiriau)
- Cyflwyno pob cofnod yn electronig ac ar ffurf PDF
- Dim mwy na chyfanswm o 12 llun yn y cyflwyniad
- Gwybodaeth ategol i beidio â bod yn fwy na 2 daflen A4 un ochr
- Trosolwg 50 gair o'r cais

Dylid e-bostio ceisiadau i Paul Williams, Ysgrifennydd LACA Rhanbarth Cymru – pwilliams@greengourmet.co.uk erbyn dydd Gwener 1 Medi 2023

## LACA WALES REGION CATERING MANAGEMENT TEAM OF THE YEAR

Sponsored by Castell Howell

The winning organisation will have demonstrated a high level of management skill, initiative, and commitment in devising and implementing a business initiative or strategy, which has brought about a positive change or improvement in their food service across their area of operations.

The winning team will have demonstrated an energetic and imaginative approach to its work as well as illustrating active involvement of staff in the successful development and introduction of change. This may include the introduction of education and training schemes and improved staff engagement, the development of new concepts and value-added support, delivering improvements in health and wellbeing, completion of modernisation programmes, significant growth or change strategies or a combination of any of these.

Evidence of community partnerships and how they worked together with any other relevant awards or accreditations received may be included in the submission.


**Submission Requirements**
- Up to a maximum of 1000 words (word count must be shown)
- All entries to be submitted electronically and in PDF format
- No more than 12 pictures in the total submission
- Support information not to exceed 2 x A4 single sided sheet
- 50 word overview of entry

Entries must be emailed to Paul Williams, LACA Wales Regional Secretary – pwilliams@greengourmet.co.uk by Friday 01 September 2023

SPONSORED BY:



LACA AWARDS 2023



## GWOBR EFFAITH GYMUNEDOL LACA RHANBARTH CYMRU

Wedi'i noddi gan ParentPay

Gall yr enwebiadau fod gan dimau neu unigolion sy'n cydnabod y cyfraniad maen nhw wedi'i wneud at wella eu cymunedau.

Bydd timau/unigolion wedi cynorthwyo'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau gydag effaith gadarnhaol. Mae angen i brosiectau ddangos tystiolaeth o effaith gadarnhaol eu cyfraniad unigol neu effaith y tîm o fewn y gymuned ehangach.

Gallai'r syniad/enwebiad fod yn un syml sydd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywyd dinesydd/dinasyddion neu brosiect cwmpasu ehangach sy'n sicrhau mwy o effaith ar draws cymunedau ehangach gan fynd i'r afael â mater allweddol fel tlodi bwyd, darpariaeth gwyliau, iechyd a lles meddwl neu effaith y pandemig.

**Gofynion Cyflwyno**
- Hyd at uchafswm o 1000 o eiriau (rhaid dangos nifer y geiriau)
- Cyflwyno pob cofnod yn electronig ac ar ffurf PDF
- Dim mwy na chyfanswm o 12 llun yn y cyflwyniad
- Gwybodaeth ategol i beidio â bod yn fwy na 2 daflen A4 un ochr
- Trosolwg 50 gair o'r cais

Dylid e-bostio ceisiadau i Paul Williams, Ysgrifennydd LACA Rhanbarth Cymru – pwilliams@greengourmet.co.uk erbyn dydd Gwener 1 Medi 2023

## LACA WALES REGION COMMUNITY IMPACT AWARD

Sponsored by ParentPay

Nominations can be from teams or individual recognising the contribution they have made to improving their communities.

Teams/individuals will have supported those most vulnerable in our communities to positive effect. Projects need to evidence the positive impact of either their individual contribution or the impact of the team within the wider community.

The idea/nomination could be a simple one which has made a significant difference to the life/lives of a citizen/s or a wider scoping project delivering greater impact across wider communities tackling a key issue such as food poverty, holiday provision, mental health and wellbeing or the impact of the pandemic.

**Submission Requirements**
- Up to a maximum of 1000 words (word count must be shown)
- All entries to be submitted electronically and in PDF format
- No more than 12 pictures in the total submission
- Support information not to exceed 2 x A4 single sided sheet
- 50 word overview of entry

Entries must be emailed to Paul Williams, LACA Wales Regional Secretary – pwilliams@greengourmet.co.uk by Friday 01 September 2023

SPONSORED BY:



# LACA AWARDS 2023

## Gwobr Bwyd mewn Ysgolion Llywodraeth Cymru a Noddir gan Lywodraeth Cymru

Bydd y wobr gyntaf hon yn cael ei chyflwyno i unigolyn neu grŵp arbennig o bobl. Bydd y wobr hon yn cydnabod yr hyn a all fod yn gyfraniadau gwahanol iawn i arlwyo addysg yng Nghymru. Nid oes unrhyw enwebeion ar gyfer y wobr hon, a bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi ar y noson.

## The Welsh Government Food in Schools Award

Sponsored by The Welsh Goverment

This inaugral award will be presented to a special individual or group of people.

This award will acknowledge what can be very different contributions to education catering in Wales.

There are no nominees for this award, and the winner will be announced on the evening.

SPONSORED BY: Llywodraeth Cymru Welsh Government

**LACA**
*the school food people*

Hoffai LACA Cymru ddiolch i'r cwmnïau canlynol am eu cefnogaeth i'r noson Gwobrau Cydnabyddiaeth o Rhagoriaeth a gynhelir yn y Vale Resort, Bro Morgannwg, 26 Hydref 2023.

LACA WALES would like to thank the following for their support for the Recognition of Excellence Awards to be held at the Vale Resort, Vale of Glamorgan, 26th October 2023